

**HYSBYSIAD PENDERFYNIAD PWYLLGOR TRWYDDEDU CYFFREDINOL
CYNGOR GWYNEDD**

Adran 100C Deddf Llywodraeth Leol 1972

21ain o FEDI 2026

Cyfarfod Rhithiol

Presenoldeb: Cadeirydd: Cynghorydd Gwynfor Owen
Is-gadeirydd: Cynghorydd Arwyn Herald Roberts

Cynghorwyr: Gwilym Evans, Annwen Hughes, Gareth Tudor Jones, Edgar Wyn Owen, Elfed Williams, Meryl Roberts, Angela Russell, Gareth Williams a Hefin Underwood

Swyddogion: Gwenan Mai Roberts (Rheolwr Trwyddedu), Andrew Parry (Rheolwr Safonau Masnach a Thrwyddedu), Nia Grisdale (Rheolwr Gwasanaethau Cyfreithiol) a Lowri Haf Evans (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth)

Ymddiheuriadau:

Cynghorwyr Anwen Davies, Huw Rowlands, a John Brynmor Hughes

**HYSBYSIAD PENDERFYNIAD PWYLLGOR TRWYDDEDU CYFFREDINOL
CYNGOR GWYNEDD**

Adran 100C Deddf Llywodraeth Leol 1972

Dyddiad Cyfarfod PWYLLGOR TRWYDDEDU CYFFREDINOL	21 Medi 26
--	-------------------

PWNC:

EITEM 5: PRISIAU TEITHIAU CERBYDAU TACSI HACNI

PENDERFYNIAD

Yn weithredol o'r 1af o Hydref 2026 yn unol â'r argymhellion a'r darpariaethau cyfreithiol, gan nad oedd gwrthwynebiad na chynigion wedi eu derbyn yn dilyn ymgynghoriad cyhoeddus, bod y Pwyllgor yn cymeradwyo'r cynnig i:

- Gynyddu uchaf bris cyfradd taith un filltir o £3.60 i £4.00 er mwyn bod yn gyson gydag amryw o gynghorau eraill, ac i gyfarch y cynnydd mewn costau rhedeg tacsï.**
- Gynyddu oriau gweithredol tariff hwyr y nos i fod yn weithredol o 22:00 yr hwyr tan 07:00 y bore, yn hytrach na bod yn weithredol o 00:00 hanner nos.**
- Ostwng cyfradd cost teithiau tariff hwyr o 60% uwch na'r gyfradd sylfaenol yn ôl i 50% yn uwch na'r gyfradd sylfaenol er mwyn cyd - fynd yn gyffredinol gyda chynghorau eraill.**

CANLYNIAD Y BLEIDLAIS

O blaid: 10
Yn erbyn: 0
Atal: 1

DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL A MATERION PROTOCOL

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol na gollyngiadau perthnasol.